# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **3ydd Gorffennaf 2018** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Nia Jeffreys** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Helen Mary Parry** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 685027** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Ymateb Cyngor Gwynedd i ddyfodiad deddfwriaeth diogelu data newydd (Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol neu 'GDPR')** |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

1.1. Gofyn i'r Cabinet fabwysiadu'r polisi a'r drefn atodedig sydd wedi eu diwygio fel rhan o'r gwaith o gyfarch gofynion newydd ym maes diogelu data.

**2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

2.1. Er mwyn sicrhau sêl bendith y Cabinet i'r dogfennau a hefyd bod y Cabinet yn gwybod beth ydi'r gwaith paratoi sydd wedi bod yn mynd rhagddo fel ymateb y Cyngor i'r newidiadau yn y ddeddfwriaeth.

**3. CYFLWYNIAD AC YSTYRIAETHAU PERTHNASOL**

Deddfwriaeth diogelu data sy'n rheoli'r defnydd a wna'r Cyngor o wybodaeth am bobl. Fel corff cyhoeddus, rydym yn cadw, rhannu ac yn defnyddio miloedd o ddarnau o wybodaeth am drigolion o Wynedd a tu'r hwnt, yn ogystal ag am staff a defnyddwyr gwasanaeth.

Mewn rhai meysydd penodol megis y benodol y gwasanaeth Oedolion, Plant ac Addysg rydym yn delio efo gwybodaeth hynod o sensitif.

Ar y 25ain o Fai 2018, bu newid mawr y fframwaith sydd mewn lle i reoli'r defnydd o wybodaeth bersonol.

Daeth y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) i rym a hefyd ar yr un dyddiad, fe ddisodlwyd Deddf Diogelu Data 1998 a chyflwynwyd Deddf Diogelu Data 2018 i gymryd ei lle.

Pwrpas y rheolau newydd ydi tynhau'r rheolau trwy fynnu bod sefydliadau yn medru profi cydymffurfiaeth a hefyd rhoi mwy o hawliau i unigolion.

Fel rhan o'r newidiadau, mae uchafswm y ddirwy am dorri'r rheolau wedi codi i **£18miliwn** (neu €20miliwn).

**Newidiadau**

Mae'r ddeddfwriaeth newydd yn gosod nifer o gyfrifoldebau newydd ar gyrff, dyma grynodeb ohonynt isod:

1. *Cofnodi lle mae ein gwybodaeth yn cael ei dal – cofrestr asedau gwybodaeth*

Mae gofyn cadw cofnod o ble rydym yn cadw gwybodaeth (o ran systemau), y cyfnod cadw, os ydym yn ei rhannu gyda chyrff allanol a pha reswm sydd gennym dros gadw'r wybodaeth

**Cynnydd**

Mae llawer o waith da wedi ei wneud eisoes ym mhob adran a gobeithir bydd wedi ei gwblhau erbyn diwedd yr haf.

2. *Datganiadau preifatrwydd*

Mae angen rhoi llawer mwy o wybodaeth i bobl am y defnydd a wneir o'u manylion personol.

**Cynnydd**

Rydym wedi ailwampio ein datganiad cyffredinol ar y wefan ac mae rhai gwasanaethau wedi rhoi eu datganiadau eu hunain ar y wefan. Oherwydd maint y dasg a'r nifer o ffyrdd gwahanol sydd yna o gasglu gwybodaeth, rhagwelir gweddill y gwaith yn digwydd dros y tymor hir.

3. *Digwyddiadau (breaches)*

Mae digwyddiad data yn golygu sefyllfaoedd lle mae gwybodaeth wedi ei dwyn, ei cholli neu wedi ei datgelu'n anfwriadol. Bydd rhaid adrodd ar ddigwyddiadau difrifol i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth o fewn 72 awr o gael gwybod am y digwyddiad a hefyd rhoi gwybod i'r unigolion dan sylw.

**Cynnydd**

Mae trefn adrodd eisoes mewn lle ond mae angen diwygio rhywfaint arno er sicrhau bod y newidiadau uchod yn cael eu hadlewyrchu.

4. *Dynodi Swyddog Diogelu Data*

Mae gofyn dynodi Swyddog Diogelu Data, rôl statudol, sy'n annibynnol megis rôl y Swyddog Monitro. Pwrpas y swydd ydi monitro cydymffurfiaeth efo'r ddeddf, cynghori ar ofynion diogelu data a gweithredu fel pwynt cyswllt i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a'r cyhoedd.

**Cynnydd**

Helen Parry, Rheolwr Gwybodaeth, ydi'r swyddog sydd wedi ei phenodi.

5. *Cynnal Asesiad Effaith Diogelu Data*

Rydym yn gyfarwydd efo asesiadau effaith ym maes cydraddoldeb a'r amgylchedd. Mae angen bellach cynnal asesiad effaith ar brosiectau newydd fyddai'n gallu amharu neu greu risgiau i breifatrwydd.

**Cynnydd**

Mae'r templed a'r gwaith papur yn barod. Mae angen sicrhau bod hyn yn cael ei weu i mewn i gynlluniau newydd sydd ar y gweill ar draws y Cyngor.

*6. Contractau*

Os ydym yn cytundebu efo sefydliadau allanol ac maent yn prosesu gwybodaeth bersonol ar ein rhan rhaid cael cymalau penodol yn y contract i adlewyrchu'r berthynas yma.

**Cynnydd**
Cytundeb cyfreithiol newydd wedi ei lunio, trafodaethau wedi eu cynnal efo'r tim caffael a gwaith yn parhau i sicrhau bod trefniadau yn briodol o ran cytundebau i'r dyfodol.

*7. Hawliau newydd i unigolion*

Cyflwynir hawliau newydd i unigolion tra bo ac newidiadau i rai hawliau presennol.

**Cynnydd**

Canllawiau a gweithdrefn newydd wedi eu llunio ar gyfer yr hawl i gael mynediad i wybodaeth. Gwaith pellach i'w wneud ar rai agweddau eraill.

**Rolau a chyfrifoldebau**

Y Grwp Rheoli a Diogelwch Gwybodaeth sy'n goruchwylio rhaglen waith y GDPR. Mae cynrychiolwyr o bob adran ar y grwp a'i bwrpas ydi sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio efo deddfau gwybodaeth, rhoi barn ar unrhyw ganllawiau neu bolisïau drafft, gweithredu fel pwynt cyswllt i'w gwasanaethau ac amlygu unrhyw risgiau penodol.

Caiff y grwp ei gadeirio gan Geraint Owen, Pennaeth yr Adran Cefnogaeth Gorfforaethol yn ei rôl fel SIRO (Senior Information Risk Owner) sef rôl sydd a throsolwg o risgiau gwybodaeth y Cyngor. Paratoir adroddiad blynyddol ganddo sy'n adnabod y risgiau yma.

Dylid nodi fod llywodraethu gwybodaeth ar y gofrestr risg gorfforaethol.

## 4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1. O fabwysiadu'r polisi a'r drefn, caiff y rhain eu rhoi yn y Ganolfan Bolisi lle bydd gofyn i bob aelod o staff eu darllen a'u derbyn.

Bydd rhaglen waith y GDPR yn parhau i gael ei monitro gan y Grŵp Rheoli a Diogelwch Gwybodaeth.

## 5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

5.1. **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Rwyf ar ddeall fod y gwasanaeth cyfreithiol wedi cynghori ar y polisi, ac rwyf yn hapus fod y ddogfen yn cyfleu'r gyfraith o ochr GDPR. Mae her sylweddol o ran cyd-ymffurfio a'r gofynion cyfreithiol hyn. Mae'r adroddiad yn nodi'r hyn sydd wedi ei gyflawni hyd yma a hefyd yr hyn sydd angen ei wneud yn y tymor byr a'r hir dymor. Bydd Grŵp Rheoli a Diogelwch Gwybodaeth yn monitro'r trefniadau yn barhaus er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth o ran y gofynion ac er mwyn rheoli risgiau sydd yn deillio o'r broses.

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Byddai mabwysiadu'r Polisi Diogelu Data a Threfn Weithredu Diogelwch Gwybodaeth newydd yn sicrhau fod y gofynion newydd ar y Cyngor oherwydd Deddf Diogelu Data 2018 a'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol wedi cael eu hymgorffori'n ffurfiol yn ein gweithdrefnau. Ni fyddai penderfyniad gan y Cabinet i fabwysiadu'r dogfennau hyn yn creu ymrwymiad gwario newydd. Mae diogelu gwybodaeth eisoes yn hanfodol wrth ddarparu gwasanaethau'r Cyngor; gan mai adeiladu ar hynny y mae'r gofynion newydd, disgwylir i wasanaethau weithredu fel bo angen o fewn eu hadnoddau cyfredol.

## Atodiadau

Atodiad 1 Polisi Diogelu Data
Atodiad 2 Trefn Weithredu Diogelwch Gwybodaeth
Atodiad 3 Asesiad Effaith Cydraddoldeb